
# BIG PIT
## AMGUEDDFA LOFAOL CYMRU
## LLWYBR DARGANFOD



AMGUEDDFA CYMRU

# CYN MYND **DANDDAEAR**

Cewch chi ddim cyfle i ddarllen y llyfryn danddaear, felly darllenwch y rhan gyntaf yn ofalus er mwyn gwybod beth i gadw clust a llygad yn agored amdano ar y daith.

Holwch y tywysydd os oes angen!



# CONTRABAND!

**Ni chewch fynd â rhai pethau danddaear am resymau diogelwch. Yr enw ar y rhain yw eitemau <u>contraband.</u>**

Ticiwch yr eitemau contraband:

- [ ] Matsys
- [ ] Sigârs
- [ ] Breichledi
- [ ] Sigaréts
- [ ] Watsys
- [ ] Ffonau poced
- [ ] Gwm cnoi
- [ ] Tanwyr
- [ ] Vapes

Pam mae'n bwysig peidio â mynd â'r pethau hyn danddaear?

Pa offer gewch chi i'w gwisgo yn y pwll?

Pam fod yr offer hyn yn bwysig?

# DANDDAEAR


**Glöwr fydd yn eich tywys chi danddaear. Bydd y glöwr yn eich dysgu chi am y diwydiant glo o ddechrau'r 1800au hyd heddiw.**

Beth yw pwrpas y drysau aer? Pam fod hyn yn bwysig?

Pa fath o waith oedd plant yn ei wneud yn y pwll? Rhestrwch 2 beth:

Beth oedd oedran llawer o'r plant wrth ddechrau gweithio yn y 1800au cynnar?

Rhestrwch 2 offeryn neu beiriant oedd y glowyr yn eu defnyddio danddaear:




# **CEFFYLAU'R** PYLLAU GLO

Sawl ceffyl oedd yn byw yn y stablau danddaear yn Big Pit?



Rhestrwch enwau rhai o'r ceffylau:

Beth oedd ceffylau'n ei fwyta danddaear?



Beth fyddai'n digwydd i'r tail o'r stablau?



# Enwch geffyl a chynlluniwch blât a'i enw arno ar gyfer ei stabl!




# Y LAMPRWM

**Byddai pob diwrnod yn dechrau ac yn gorffen yn y lamprwm. Byddai'r glowyr yn casglu eu lampau cyn mynd danddaear, ac yn eu dych we l yd i bweru'r batris ar ddiwedd pob sifft.**

Pam y cadwyd caneris ym mhob pwll glo tan yn ddiweddar?

Pam oedden nhw'n cadw adar yn y pyllau?






# TY'R **INJAN WEINDIO**

**Yn yr adeilad hwn mae injan weindio trydan a adeiladwyd gan Uskside Engineering Company ym 1951 ac a osodwyd yn ei lle ym 1952.**

Beth oedd yn gyrru'r injan weindio cyn 1952?

Sut ydych chi'n meddwl y byddai'r glo a'r dynion yn cael eu tynnu lan a lawr y siafft cyn i'r caets modern gael ei osod mewn Pyllau Glo yng Nghymru?





# Y STABLAU

**Cafodd ceffylau eu defnyddio yn Big Pit am flynyddoedd maith. Roedden nhw'n helpu i symud y glo a nwyddau danddaear ac ar yr wyneb. Pan gafodd menywod a phlant eu gwahardd o weithio danddaear ym 1842, y ceffylau gymrodd eu lle.**

*Darllenwch Siarter y Ceffylau Pwll.*

Yn ôl y Siarter, pa mor aml ddylai'r ceffylau gael archwiliad gan Filfeddyg?



Sawl ceffyl dylai fyw mewn stâl?

Ydych chi'n credu byddai cyflwyno Siarter y Ceffylau Pwll ym 1911 wedi gwneud bywyd yn well neu'n waeth i'r ceffylau? Pam?

# Y BADDONDY **PEN PWLL**

**Agorwyd yr adeilad hwn ym 1939. O hynny ymlaen, dychwelai glowyr Big Pit i'w cartrefi'n lân.**

Pam dych chi'n meddwl y byddai'r baddondy wedi gwneud bywyd yn haws i wragedd y glowyr?

Pam fod 2 ddrws i mewn i adeilad y baddondy?

Pam fod 2 locer yr un gan y glowyr?




# Y BADDONDY **PEN PWLL**

Ffeindiwch locer Ann Land. Pa waith oedd Ann yn ei gwneud yng nglofa Taff Merthyr?

Ffeindiwch locer Bert Coombes. Beth oedd ei oedran e pan ddaeth yn löwr?

Beth gyhoeddodd Bert ym 1939?

Pam fod hyn mor bwysig heddiw?



# PLATIAU **RHWBIO**

Edrychwch ar y platiau rhwbio ar ben arddangosfa'r blychau teimlo. Gwnewch rwbiad isod trwy gysylltu 2 hanner llun.

# POBL Y **GLO**

Ewch ar eich pedwar drwy'r twnnel islaw'r gweithgaredd 'Tynnu Dram'. Beth ydych chi'n eu ddysgu am fywydau plant danddaear o'r twnnel yma?



Tynnwch y 3 dram o lo. Pa un yw'r hawsaf i'w thynnu? Pam?

Ym mha flwyddyn stopiodd marched a phlant dan 10 oed weithio danddaear?

Beth oedd swydd gyntaf Phillip Davis (10 oed)?

Beth hoffai Phillip wneud? Pam na allai wneud hyn?

# BWTHYN Y **GLÖWR**

Edrychwch o gwmpas bwthyn y glöwr. Beth fyddai'r menywod yn ei wneud gartref pan fyddai'r dynion allan yn gweithio.
Rhestrwch 4 peth.

**1** ______________________ **3** ______________________

**2** ______________________ **4** ______________________

Sut gallai'r ty fod yn lle mor beryglus?

Edrychwch ar gegin y glowr. Allwch chi enwi 3 pheth sy'n wahanol rhwng y gegin yma a'ch cegin chi?

# PŴER O'R GORFFENNOL

Beth sydd gan bersawr, peli snwcer a minlliw yn gyffredin?

*Cliw: felly hefyd yr eitemau isod!*



Defnydd Glanhau'r Cartref



Tar Ffordd




Glanedyddion





Neilon Gwrteithiau



Paent a Farnais

Neilon Hosanau





# BYDDED GOLEUNI

**Edrychwch drwy ffenestr ryngweithio 'Bydded Goleuni'**

Pa un sy'n taflu'r golau mwyaf:

☐ 
Cannwyll

☐ 
Lamp ddiogelwch â fflam

☐ 
Lamp drydan ar gap

Pam oedd tocynnau lampau'n bwysig i'r glöwr?

Yn eich barn chi, pam eu bod wedi'u gwneud o bres?



# ATEBION



## EITEMAU GWAHARDDEDIG

- Matsys, sigârs, sigaréts, watsys, ffonau poced, tanwyr sigaréts, vapes
- Gall pob un greu gwreichion ac achosi ffrwydrad
- Helmed, batri, lamp cap, hunan-achubwr
- I ddarparu golau a'n cadw'n ddiogel danddaear.

## DANDDAEAR

- Er mwyn sicrhau bod awyr yn llifo i'r cyfeiriad cywir i awyru'r pwll glo
- Er mwyn cadw awyr y pwll yn ffres i'w anadlu ac i symud unrhyw nwy a all fod yno
- Roedd ceidwaid y drysau awyru (trapiwr) yn agor a chau'r drysau awyru. Roedd certwyr neu ddramwyr yn gwthio a thynnu certiau neu ddramiau glo o'r wyneb i waelod y pwll, Roedd bechgyn yn llenwi'r dramiau â glo wedi'i dorri gan y glowyr
- Roedd plant yn dechrau gweithio mor ifanc â 6 oed
- Mandrel, rhaw, gordd, llif, bwyell, dril a pheirannau eraill i dorri glo.

## CEFFYLAU'R PWLL

- Cyflogwyd 72 o geffylau yn y Pwll Mawr
- Welsh, Patch, Tiger, Victor, Dragon, Ponty, Prince, Silver, Foster ac Essex yw rhai o'r enwau sydd i'w gweld ar y stablau danddaear.
- Roedd y ceffylau yn bwyta mân us _ cymysgedd o wair a cheirch.
- Roedd y tail yn cael ei godi i'r wyneb uwchben y pwll ar ôl glanhau'r stablau. Roedd rhai pobl yn defnyddio'r tail yn eu gerddi

## Y LAMPRWM

- Cadwyd caneris ym mhob pwll glo.
- Eu pwrpas oedd canfod a oedd nwy yn bresennol _ mae adar yn anadlu'n gynt na dyn a byddai'n disgyn o'i glwyd pe bai unrhyw nwy yn yr awyr. Fel arfer byddai'r caneris yn cael eu hadfywio ag ocsigen

## TY'R INJAN WEINDIO

- Yn wreiddiol stêm oedd yn gyrru'r injan ddirwyn.
- Fe'u tynnwyd i fyny ac i lawr â llaw gyda rhaff a chadwyn (winsh)

## Y STABLAU

- Bob wythnos.
- Un ceffyl i bob stabl.
- Gwell. Sefydlwyd y Siarter er mwyn sicrhau bod ceffylau'n cael eu trin yn deg heb greulondeb

## Y BADDONDY PEN PWLL

- Oherwydd na fyddai'r glowyr yn dod adre o'r gwaith yn llwch y glo o'u pen i'w sawdl mwyach.
- Y fynedfa 'lân' oedd un fynedfa a'r fynedfa 'frwnt' oedd y llall.
- Roedd dillad glân mewn un locer a dillad gwaith brwnt yn y llall.
- Ann Land oedd yn gweithio yn y cantîn
- Roedd Bert Coombes yn 18 pan ddaeth yn löwr.
- Yn 1939 fe gyhoeddodd ‘These Poor Hands’. Mae'r llyfr hwn yn bwysig am ei fod yn adrodd hanes bywyd y glöwr.

## POBL Y GLO

- Roedd rhaid i blant weithio mewn llefydd tywyll, isel a pheryglus.
- Y ddram ar y chwith yw'r hawsaf i'w thynnu. Mae hyn oherwydd bod ganddi olwynion metel a chledrau i'w llywio.
- Ym 1842 rhoddodd menywod a phlant o dan 10 oed y gorau i weithio danddaear.

## POBL Y GLO

- Roedd Phillip Davies yn gweithio danddaear yn agor a chau'r drysau awyru.
- Byddai'n hoffi mynd i'r ysgol.
- Ni allai fynd i'r ysgol am ei fod yn rhy flinedig ar ôl gweithio 12 awr

## BWTHYN Y GLÖWR

- Cynnau'r tân, berwi a chario dwr i olchi dillad ac ymolchi, coginio, gwnïo a thrwsio, tacluso, smwddio, glanhau'r ty, gofalu am y plant.
- Roedd menywod yn cario pwysau trwm a llwythi oedd yn achosi anafiadau; yn aml byddai plant yn cael eu llosgi neu eu boddi yn nwr bath eu tad. Roedd tân agored gyda giard o'i flaen yn gyffredin iawn

## PWER O'R GORFFENNOL

- Sgil-gynhyrchion glo yw pob un.

## BYDDED GOLEUNI

- Y lamp drydan ar gap sy'n rhoi'r golau mwyaf, wedyn y gannwyll. Y lamp ddiogelwch (sêffti) â fflam sy'n rhoi'r golau lleiaf

## TOCYNNAU LAMPAU

- Pan fyddai glöwr yn mynd â'i lamp danddaear byddai'n gadael ei docyn lamp yn yr ystafell lampau. Roedd hyn yn dangos lle'r oedd ef pe bai argyfwng yn codi.
- Roeddent wedi'u gwneud o bres am ei fod yn ddeunydd cryf

**Diolch am ymweld!**

I ddysgu mwy am Big Pit, mynd i:  amgueddfa.cymru/bigpit



AMGUEDDFA
CYMRU

